## Y Ci Coch

A glywsoch
Y stori am y ci coch,
Hwnnw a'i drwyn main a'i gain gwt
A'i ergyd tua'r ieirgwt?
'Fy haeddiant,' eb ef, 'heddiw
Yw un hwyaden wen wiw
Cyn y daw Owen heno
I roi'r drws dan ei glws glo.'
Gyda'r hwyr o'i goed yr aeth
I ymyl caeau amaeth.
A daeth dan ddistaw duthian
Â herc glir i barc y lan.
Yr oedd y fad hwyaden
Yn tolcio pridd ger twlc pren.
Heb Nos da, heb un ystŵr
Daeth y ffals, daeth y ffowlswr.
Cododd Gwen ei phen heb ffws
A fflip a fflap, hi fflopws
I'r twlc trwy'r siwter talcen
A chau'r drws bach. Chwerw dros ben!
A ba! dyna ei dinas.
Mae'n popo mewn, pipo ma's
A dweud 'Cwac' a 'Dic dac do,
'Dwy' i ddim yn ffit it eto!'